Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

Awgrymiadau ar gyfer Clyweliadau Ensembles Cerddoriaeth CCIC

Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u llunio er mwyn ceisio eich helpu i baratoi ar gyfer eich clyweliad Ensemble Cerddoriaeth Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid. Darllenwch hwy yn ofalus a phob lwc!

Paratowch yn Drylwyr!

Dylech ddewis eich darnau yn ofalus
Mae'n well dewis darn yr ydych chi'n gallu ei chwarae'n dda ac sy'n dangos eich gallu o ran chwarae yn hytrach na cheisio chwarae darn a fydd, yn eich barn chi, yn creu argraff ond sy'n ddarn nad ydych chi'n gyffyrddus ag ef.

Dylech ymarfer gyda metronom
Mae amseriad yn holl bwysig mewn cerddoriaeth, yn enwedig wrth chwarae mewn ensemble – mae'n hawdd arafu mewn rhannau sydd yn eich barn chi'n anodd a chyflymu mewn rhannau yr ydych chi'n gallu eu chwarae'n rhwydd. Bydd ymarfer gyda metronom yn eich disgyblu i gadw mewn amser. Mae hyn hefyd yn wir am ddarllen ar yr olwg gyntaf a graddfeydd.

Dylech ymarfer darllen ar yr olwg gyntaf
Darllen ar yr olwg gyntaf yw un agwedd sy'n poeni pawb felly rhowch gyfle i'ch hun a gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ymarfer; dewiswch ddarn nad ydych wedi'i chwarae erioed o'r blaen a rhowch dro arno. Cofiwch mai'r peth pwysicaf i'w wneud wrth ddarllen ar yr olwg gyntaf yw cadw fynd – nid oes neb yn disgwyl i chi fod yn berffaith, fodd bynnag fe fyddwch yn ennill marciau os byddwch chi'n chwarae'n gerddorol ac mewn amser!

Dylech ymarfer eich graddfeydd
Nid oes neb yn arbennig yn mwynhau chwarae graddfeydd, fodd bynnag os ydych chi'n gallu eu chwarae'n dda, maent yn farciau sy'n rhwydd i'w hennill ac fe fyddant hefyd o fantais i chi wrth chwarae'r rhediadau cyflym hynny y modd modd i chi faglu drostynt.
Cofiwch – nid oes rhaid i raddfeydd fod â sain undonog, mae modd i chi eu chwarae yn gerddorol ac mewn amser – mae gan raddfeydd sydd wedi'u rheoli a'u mynegi'n dda sain sy'n fwy trawiadol na phan rydych yn eu chwarae mor gyflym ag y gallwch.

Dylech baratoi eich darnau
Os ydych chi'n derbyn darnau i'w paratoi ar gyfer eich clyweliad – peidiwch â'u gadael tan y funud olaf!
Nid marciau ar gyfer eich chwarae yn unig yw'r rhain, maent hefyd ar gyfer eich agwedd tuag at ymarfer. Mae pawb ar lefel chwarae sy'n gyfartal, gwnewch yn siŵr eich bod ar y blaen gan ymchwilio i'r darn ychydig, gwrandewch ar recordiad er mwyn clywed sut y dylai fod a gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r holl gyfarwyddiadau a roddir i chi.

Eich Clyweliad

Dylech gyrraedd yn gynnar
Peidiwch â rhoi eich hun o dan ragor o bwysau trwy gyrraedd ar y funud olaf. Mae gennych amser i baratoi – defnyddiwch ef!

Ymlaciwch
Efallai ei bod yn haws dweud na gwneud, fodd bynnag mae'r panel clyweld eisiau i chi wneud yn dda - os ydych wedi paratoi yn drylwyr, nid oes unrhyw rheswm pam na ddylech deimlo'n hyderus a mwynhau'r clyweliad.
Cofiwch – mae pob tiwtor wedi bod trwy glyweliadau eu hunain, byddant yn ymwybodol o'r hyn rydych chi'n ei brofi!

Gwisg
Nid ydym yn disgwyl i chi edrych fel eich bod yn mynd am gyfweliad mewn banc, ac rydym eisiau i chi deimlo'n gyffyrddus, ond cofiwch bod argraffiadau cyntaf yn cyfrif, felly meddyliwch am yr hyn rydych chi'n ei wisgo a gwnewch yn siŵr bod y cyfarfod cyntaf gyda'r panel yn un da.